

Pennaeth: Mrs Eirian Owain B.Add.
Head: Mrs Eirian Owain B.Ed.

☎ 01490 412500



ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk

Ysgol Bro Dyfrdwy



Cynwyd
Corwen
Sir Ddinbych
LL21 0LG

Ionawr 12fed 2018

Annwyl Rieni,

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd! Mae prysurdeb y tymor newydd wedi cychwyn yn barod Gobeithio bod pawb wedi cael gwyliau hyfryd ac wedi mwynhau y dathliadau. Mae gorwelion pawb nawr yn troi at yr heriau newydd fydd yn ein gwynebu yn. 2018.

Yn gywir,

Eirian Owain

RHIFAU FFON CYSWLLT - Os ydych wedi cael ffôn symudol newydd ar gyfer y Nadolig neu yn wir os bu unrhyw newidiadau yn eich gwybodaeth gyswllt, rhowch wybod i'r Swyddfa, fel y gallwn ddiweddarau ein cofnodion.

GWERSI NOFIO - Disgyblion Blwyddyn 2 fydd yn cael gwersi nofio bob dydd Iau y tymor hwn. Gofynnwn yn garedig am rodd o £1.50 y tro i dalu am y costau teithio. Yr ysgol sy'n talu am yr hyfforddiant. Bydd y wers cyntaf ar 18/01/18.

DILLAD YMARFER CORFF - A fuasech cystal â sicrhau bod gan bob plentyn ei wisg ymarfer corff yn yr ysgol yr wythnos nesaf sef crys t plaen gwyn, siorts du (a pumps du i blant y Cyfnod Sylfaen).

FFAIR LYFRAU SCHOLASTIC - Cynhelir Ffair Lyfrau Saesneg yma phawn Llun, phawn Mawrth a phawn Mercher yr wythnos nesa rhwng 3.30 a 4.30 y.p. Dewch yn llu i gefnogi'r fenter hon.

GWEITHDAI UKULELE - Mae Gwion o Fenter Iaith Sir Ddinbych yn trefnu gwersi ukulele yn neuadd yr ysgol i blant rhwng 5 a 15 oed. Bydd y sesiwn cyntaf sef sesiwn blasu **AM DDIM** ar 23/1/18.

Sesiwn 1: 3.30 - 4.00y.p

Sesiwn 2: 4.15 - 4.45yp



Pennaeth: Mrs Eirian Owain B.Add.
Head: Mrs Eirian Owain B.Ed.

☎ 01490 412500



ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk

Ysgol Bro Dyfrdwy



Cynwyd
Corwen
Sir Ddinbych
LL21 0LG

Cysylltwch efo Gwion ar 01745 812 822 am fwy o wybodaeth neu i archebu lle.

DALIER SYLW - CLWB YR URDD - NEWID DYDDIAD - Cynhelir Clwb yr Urdd ar 07/02/18 yn hytrach na 31/01/18.

GWASANAETH Y TEULU - Cynhelir gwasanaeth teulu Blwyddyn 5 a 6 am 9.00 y.b ar 07/02/18 a gwasanaeth Blwyddyn 2 am 9.00 y.b ar 22/03/18.

EISTEDDFOD CYLCH YR URDD - Cynhelir Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Dinas Bran yn ôl yr arfer ar 03/03/18 a'r Eisteddfod Sir ar 17/03/18.

Mae newid yn y drefn eleni efo'r Celf a Chrefft. Disgwylir unrhyw waith Celf a Chrefft i'r ysgol erbyn 20/03/18. Caiff y gwaith ei feirniadu yn Ysgol y Gwernant am 1.00 y.p. ar 21/03/18.

TRYDAR/TWITTER - Yn ystod y tywydd drwg yn ddiweddar amlygodd Trydar fel adnodd defnyddiol iawn ar gyfer rhannu gwybodaeth. Rydym yn ychwanegu at ein dilynwyr bob wythnos, felly beth am ein dilyn er mwyn i chi gadw i fyny gyda'r holl weithgareddau, yn enwedig os oes unrhyw newyddion sy angen ei rannu ar frys. @ysgolbrodyfrdwy

LLONGYFARCHIADAU i blant y Dosbarth Meithrin a ddaeth yn 2ail am greu poster mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Coleg Llysfasï cyn y Nadolig.

